

## COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU – HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

**Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2022**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy ch beth i'w ddisgwyl gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a staff Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru pan fydd eich data personol yn cael ei brosesu mewn cysylltiad ag [adolygiad Adran 20 y Comisiynydd o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Mae'n rhoi gwybod i chi am y canlynol:

- pam y gallwn brosesu eich gwybodaeth
- pa ddata personol rydym yn ei gasglu a pham
- sut rydym yn ei gasglu
- pwy fydd yn cael mynediad iddo
- am ba hyd y byddwn yn ei storio
- eich hawliau.

### Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR). Mae'r Comisiynydd yn rheolydd data at ddibenion y DPA a GDPR y DU.

Ein seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yw pwerau a dyletswyddau'r Comisiynydd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf). Yn benodol, wrth gynnal yr adolygiad hwn, adran 20 o'r Ddeddf. Mae'r sail statudol hon yn dod o dan Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU: prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn y rheolydd.

### Y math o ddata personol rydym yn ei gasglu

Wrth gynnal ein hadolygiad Adran 20 (gan gynnwys cyhoeddi adroddiad o'r adolygiad ac unrhyw argymhellion a wnaed a chyngor neu wybodaeth gyhoeddus gysylltiedig mewn cysylltiad ag ef) rydym yn prosesu'r data personol canlynol er mwyn casglu ac adrodd ar y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen arnom at y diben hwnnw:



- Dynodyddion personol, cysylltiadau a nodweddion (enw a manylion cyswllt, er enghraifft).

### **Sut rydym yn cael y data personol a phwy fydd yn cael mynediad ato**

Mae'r rhan fwyaf o'r data personol rydym yn ei brosesu yn cael ei ddarparu i ni'n uniongyrchol gennych chi at ddiben cynnal adolygiad Adran 20.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn derbyn data personol yn anuniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, partneriaid, rhanddeiliaid eraill ac ymchwilyr sy'n ymwneud â'n hadolygiad Adran 20.

Bydd gan y Comisiynydd ac aelodau staff y tîm adolygu fynediad at eich data personol.

Rydym yn defnyddio eich data personol er mwyn cysylltu â chyfranogwyr ac i gynnal a chomisiynu cyfweiliadau pellach a cheisiadau am wybodaeth berthnasol yn ystod yr adolygiad. Byddwn hefyd yn dyfynnu unigolion y gallwn gyfeirio atynt yn ôl enw a/neu rôl yn ein hadroddiad a chyhoeddiadau cysylltiedig.

Pan fydd y Comisiynydd ac aelodau o staff y tîm adolygu yn ymgysylltu ag ymchwilyr allanol efallai y bydd ganddynt fynediad at a phrosesu eich data personol fel proseswyr data trydydd parti. Cyfyngir hyn i ddibenion ymchwil mewn cysylltiad ag Adolygiad Adran 20.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag aelodau [Grŵp Llywio Adran 20](#) a chyrrff cyhoeddus penodol eraill ond dim ond i'r graddau y mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Ddeddf ac yn cael ei ganiatáu neu'n ofynnol gan y gyfraith.

### **Sut rydym yn storio eich gwybodaeth bersonol**

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio gan y Comisiynydd ar systemau diogel gyda mynediad yn gyfyngedig i aelodau perthnasol tîm Adolygu Adran 20 yn unig.



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales

Ni fyddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol at ddiben arfer pwerau Adran 20 y Comisiynydd [ac am gyfnod penodol wedi hynny. Byddwn yn cynnal adolygiad 2 flynedd ar ôl cyhoeddi]. Yna byddwn yn cael gwared ar y wybodaeth mewn modd diogel ac yn unol â gofynion y DPA a GPDR y DU.

## Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau gan gynnwys:

- *Hawl mynediad* Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.
- *Hawl i gywiro* Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol y credwch sy'n gywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth y credwch ei bod yn anghyflawn.
- *Hawl i ddileu* Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.
- *Hawl i gyfyngu ar brosesu* Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.
- *Hawl i wrthwynebu prosesu* Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.
- *Hawl i gludadwyedd data* Mae gennych hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol a roesoch i ni i sefydliad arall, neu i chi, o dan rai amgylchiadau.

Nid yw'n ofynnol i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Os byddwch yn gwneud cais, mae gennym fis i ymateb i chi.

Cysylltwch â ni drwy'r manylion cyswllt a nodir isod os dymunwch wneud cais.

## Ein manylion cyswllt

Jacob Dafydd Ellis

---

### Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol  
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH  
[cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru](mailto:cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru)  
[cenedlaethaurdyfodol.cymru](http://cenedlaethaurdyfodol.cymru)

---

### Future Generations Commissioner for Wales

Office of the Future Generations Commissioner  
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CF11 6BH  
[contactus@futuregenerations.wales](mailto:contactus@futuregenerations.wales)  
[futuregenerations.wales](http://futuregenerations.wales)



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd CF11 6BH.

Ebost: [cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru](mailto:cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru)

### Swyddog Diogelu Data

Gellir cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data Sang-Jin Park hefyd drwy e-bost:

[cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru](mailto:cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru) neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad post uchod.

### Sut i gwyno

Os oes gennych unrhyw bryderon am ein defnydd o'ch data personol, gallwch wneud cwyn i ni drwy'r manylion cyswllt uchod.

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych yn anhapus â'r ffordd rydym wedi defnyddio'ch data. Cyfeiriad yr ICO yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru

Cyfeiriad post: [Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH](#)

Rhif ffôn: [0330 414 6421](tel:03304146421)

Ebost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)

Gwefan: [Swyddfa Cymru | ICO](#)